# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 27 Chwefror 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu dadansoddiad o faint o arbedion effeithlonrwydd a ganfuwyd ac a gyflawnwyd yn ystod 2008/2009 yn ôl maes gweithgarwch yn ei Adran? (WAQ53493)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fel y nodwyd gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei ymateb i WAQ53328, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud cynnydd da wrth sicrhau ei harbedion effeithlonrwydd a gynllunniwyd. Bydd y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn adrodd ar gyflawniadau yn ystod 2008-2009 ar ôl i gyfrifon Llywodraeth Cynulliad Cymru gael eu paratoi.

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o faint o arbedion effeithlonrwydd a ganfuwyd ac a gyflawnwyd yn ystod 2008/2009 yn ôl maes gweithgarwch yn ei Adran? (WAQ53494) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Cyfeiriaf at fy ateb i WAQ53493.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o faint o arbedion effeithlonrwydd a ganfuwyd ac a gyflawnwyd yn ystod 2008/2009 yn ôl maes gweithgarwch yn ei Hadran? (WAQ53499) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Cyfeiriaf at fy ateb i WAQ53493.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o faint o arbedion effeithlonrwydd a ganfuwyd ac a gyflawnwyd yn ystod 2008/2009 yn ôl maes gweithgarwch yn ei Hadran? (WAQ53495) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Cyfeiriaf at fy ateb i WAQ53493.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

**Chris Franks (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chabinet Cyngor Rhondda Cynon Taf ynghylch y setliad i lywodraeth leol? (WAQ53473)

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Nid wyf i wedi cael unrhyw drafodaethau ond y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraethol Leol sy'n gyfrifol am y setliad llywodraeth leol. Ymgynghorodd â CLlLC ac arweinwyr awdurdodau lleol ar setliad llywodraeth leol dros dro 2009-10. Ymatebodd arweinydd Rhondda Cynon Taf i'r ymarfer ymgynghori ar 5 Tachwedd. Ystyriwyd yr ymateb hwn a'r ymatebion eraill a gafwyd cyn cyhoeddi'r setliad llywodraeth leol terfynol ar 10 Rhagfyr.

**Chris Franks (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chabinet Cyngor Rhondda Cynon Taf ynghylch cyllideb bresennol Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ53470)

**Chris Franks (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn y flwyddyn ddiwethaf gyda Chabinet Cyngor Rhondda Cynon Taf ynghylch cyllideb bresennol Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ53471)

**Chris Franks (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru'r cyfarfodydd y mae wedi'u cael yn y flwyddyn ddiwethaf gyda Chabinet Cyngor Rhondda Cynon Taf ynghylch cyllideb bresennol Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ53472)

**Andrew Davies:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau diweddar gyda Chabinet Cyngor Rhondda Cynon Taf am gyllideb gyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o faint o arbedion effeithlonrwydd a ganfuwyd ac a gyflawnwyd yn ystod 2008/2009 yn ôl maes gweithgarwch yn ei Adran? (WAQ53496) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Cyfeiriaf at fy ateb i WAQ53493.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu o faint o arbedion effeithlonrwydd a ganfuwyd ac a gyflawnwyd yn ystod 2008/2009 yn ôl maes gweithgarwch yn ei Hadran? (WAQ53498) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Cyfeiriaf at fy ateb i WAQ53493.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Yn dilyn yr ateb i WAQ53189, a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad ar gyfer pob ardal Bwrdd Iechyd Lleol ym mhob blwyddyn? (WAQ53510)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Nid yw'n bosibl nodi ardal breswyl pobl sydd wedi cael presgripsiwn methadon. Mae'r tabl atodedig yn dangos nifer y presgripsiynau methadon a ddosbarthwyd yn y gymuned gyda manylion am y nifer a roddwyd gan feddygon teulu (fesul Bwrdd Iechyd Lleol) a fesul Ymddiriedolaeth GIG.

Nifer y presgripsiynau methadon a roddwyd yn y gymuned gan y BILl / Ymddiriedolaeth (a)

| Sefydliad | 1999 | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Presgripsiynau gan Feddygon Teulu | | | | | | | | | |
| Bwrdd Iechyd Lleol | | | | | | | | | |
| Ynys Môn | 2,684 | 2,589 | 2,568 | 2,218 | 2,134 | 1,966 | 1,503 | 1,565 | 4,492 |
| Gwynedd | 1,509 | 2,149 | 2,577 | 2,033 | 1,693 | 1,469 | 1,569 | 1,754 | 2,683 |
| Conwy | 1,405 | 736 | 610 | 470 | 569 | 684 | 332 | 334 | 1,183 |
| Sir Ddinbych | 1,935 | 1,863 | 1,704 | 1,678 | 1,552 | 1,324 | 1,069 | 850 | 1,307 |
| Sir y Fflint | 2,357 | 2,143 | 1,739 | 1,389 | 1,426 | 1,174 | 1,289 | 1,427 | 1,250 |
| Wrecsam | 2,979 | 2,390 | 1,800 | 1,729 | 2,114 | 2,446 | 3,028 | 3,558 | 4,109 |
| Powys | 602 | 905 | 1,080 | 1,277 | 1,146 | 1,344 | 2,332 | 2,648 | 3,642 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ceredigion | 1,332 | 1,085 | 1,240 | 1,219 | 1,570 | 1,505 | 1,873 | 2,032 | 1,983 |
| Sir Benfro | 433 | 641 | 644 | 896 | 919 | 1,042 | 1,157 | 1,515 | 1,775 |
| Sir Gaerfyrddin | 1,327 | 1,380 | 1,509 | 2,082 | 2,541 | 2,594 | 3,144 | 4,194 | 5,055 |
| Abertawe | 1,296 | 1,200 | 755 | 361 | 362 | 449 | 447 | 407 | 657 |
| Castell-nedd Port Talbot | 563 | 681 | 703 | 627 | 398 | 330 | 923 | 564 | 317 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 126 | 99 | 129 | 151 | 132 | 122 | 326 | 339 | 814 |
| Bro Morgannwg | 184 | 142 | 210 | 143 | 112 | 225 | 116 | 348 | 633 |
| Caerdydd | 734 | 1,002 | 1,360 | 1,148 | 1,495 | 2,034 | 2,452 | 3,449 | 4,176 |
| Rhondda Cynon Taf | 657 | 742 | 743 | 564 | 791 | 1,207 | 2,655 | 4,278 | 6,050 |
| Merthyr Tudful | 54 | 61 | 27 | 25 | 18 | 21 | 21 | 203 | 444 |
| Caerffili | 598 | 530 | 347 | 272 | 183 | 289 | 320 | 284 | 456 |
| Blaenau Gwent | 126 | 69 | 389 | 358 | 319 | 564 | 784 | 410 | 370 |
| Tor-faen | 539 | 236 | 106 | 427 | 377 | 357 | 312 | 267 | 2,898 |
| Sir Fynwy | 698 | 768 | 935 | 810 | 1,105 | 1,199 | 1,313 | 1,606 | 2,346 |
| Casnewydd | 3,064 | 3,465 | 2,683 | 2,988 | 3,300 | 2,956 | 2,116 | 2,237 | 2,587 |
| Bro Taf, BILl anhysbys | - | 2 | - | 3 | - | - | - | - | - |
| Dyfed Powys, BILl anhysbys | 4 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Gwent, BILl anhysbys | 2 | 1 | 2 | 4 | 1 | 4 | - | - | - |
| Iechyd Morgannwg, BILl anhysbys | 2,836 | 3,548 | 3,572 | 3,425 | 5,640 | 8,215 | 8,912 | 5,806 | 5,451 |
| Gogledd Cymru, BILl anhysbys | 38 | - | 2 | - | - | - | - | - | - |
| | | | | | | | | | |
| Presgripsiynau gan Ymddiriedolaethau’r GIG (a) | | | | | | | | | |
| Bro Morgannwg | 110 | 438 | 479 | 589 | 695 | 1,256 | 3,072 | 6,739 | 7,152 |
| Caerdydd a’r Fro | 1,223 | 2,922 | 3,995 | 4,734 | 3,587 | 4,234 | 6,340 | 9,103 | 10,871 |
| Sir Gaerfyrddin | - | - | - | - | - | - | - | 3 | - |
| Ceredigion a Chanolbarth Cymru | - | - | - | - | - | - | - | - | 64 |
| Conwy a Sir Ddinbych | 24 | 41 | 28 | 30 | 3 | 13 | 13 | 56 | 4 |
| Gofal Iechyd Gwent | 1,813 | 4,399 | 6,268 | 8,760 | 9,289 | 7,466 | 5,612 | 4,794 | 5,127 |
| Gogledd-ddwyrain Cymru | 1,940 | 4,891 | 5,845 | 5,397 | 4,500 | 6,659 | 7,883 | 5,808 | 10,154 |
| Gogledd Morgannwg | 2 | - | - | 1 | - | 1 | 7 | 8 | 7 |
| Gogledd-orllewin Cymru | 697 | 1,807 | 3,077 | 3,530 | 4,138 | 4,579 | 5,933 | 6,672 | 3,842 |
| Sir Benfro a Derwen | | | 84 | 97 | 242 | 87 | 92 | 93 | 66 |
| Pontypridd a’r | 1,324 | 3,438 | 4,644 | 5,084 | 4,908 | 5,422 | 7,476 | 7,276 | 9,887 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhondda | | | | | | | | | |
| Bwrdd Iechyd Lleol Powys | 6 | 63 | 74 | 86 | 316 | 447 | 32 | - | 1 |
| Abertawe | 508 | 1,138 | 1,432 | 1,805 | 1,631 | 1,859 | 3,007 | 5,455 | 4,739 |
| GIG Felindre | - | - | - | - | - | - | - | 3 | 2 |
| Ymddiriedolaeth Anhysbys | 2 | 6 | 2 | 29 | 34 | 38 | 15 | 5,542 | 818 |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **35,731** | **47,570** | **53,362** | **56,439** | **59,240** | **65,581** | **77,475** | **91,627** | **107,412** |

(a) Rhagnodir rhywfaint o fethodon gan Glinigau Cyffuriau ac Alcohol Cymunedol (CDACs) a dengys y rhain o dan yr Ymddiriedolaeth sy'n rhedeg y clinig. Ni ellir pennu'r presgripsiynau hyn i BILl. Caiff cyffuriau a ddosberthir gan ysbytai eu heithrio.

Cynhyrchwyd y wybodaeth a ddangosir yn y tabl gan ddefnyddio data a broseswyd ar y sail yr hyn a ganlyn:

Mae pob presgripsiwn wedi'i brosesu'n llawn heblaw am y rhai ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 1999 a mis Mawrth 2000 a amcangyfrifwyd ar sail sampl o 1 mewn 10 o'r holl gontractwyr fferyllol sy'n cyflwyno mwy na 2,500 o bresgripsiynau bob mis; mae'r presgripsiynau gan gontractwyr llai, meddygon fferyllol a chontractwyr offer a weinyddir yn bersonol wedi'u prosesu'n llawn.

Rhaid bod yn ofalus felly wrth dynnu casgliadau o'r wybodaeth a ddangosir yn y tabl hwn ar gyfer y chwe mis hynny.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o faint o arbedion effeithlonrwydd a ganfuwyd ac a gyflawnwyd yn ystod 2008/2009 yn ôl maes gweithgarwch yn ei Adran? (WAQ53491) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Cyfeiriaf at fy ateb i WAQ53493.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o faint o arbedion effeithlonrwydd a ganfuwyd ac a gyflawnwyd yn ystod 2008/2009 yn ôl maes gweithgarwch yn ei Hadran? (WAQ53490) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Cyfeiriaf at fy ateb i WAQ53493.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

**Chris Franks (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru'r cyfarfodydd y mae wedi'u cael yn y flwyddyn ddiwethaf gyda Chabinet Cyngor Rhondda Cynon Taf ynghylch y setliad i lywodraeth leol? (WAQ53474)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Nid wyf wedi cael unrhyw gyfarfodydd â Chyngor Rhondda Cynon Taf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf am y setliad llywodraeth leol.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o faint o arbedion effeithlonrwydd a ganfuwyd ac a gyflawnwyd yn ystod 2008/2009 yn ôl maes gweithgarwch yn ei Adran? (WAQ53497) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Cyfeiriaf at fy ateb i WAQ53493.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o faint o arbedion effeithlonrwydd a ganfuwyd ac a gyflawnwyd yn ystod 2008/2009 yn ôl maes gweithgarwch yn ei Adran? (WAQ53489) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

**Y Prif Weinidog:** Cyfeiriaf at fy ateb i WAQ53493.